



Datganiad Cwricwlwm



Mae uwch arweinwyr, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer y cwricwlwm yr ydym wedi'i ddatblygu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r elfennau gofynnol fel y'u nodir yn y fframwaith cenedlaethol. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu rhinweddau'r pedwar diben wrth ddod yn Ddysgwyr Uchelgeisiol, Galluog; yn Gyfranwyr Mentrus, Creadigol; yn Ddinasyddion Egwyddorol, Gwybodus ac yn Unigolion Iach, Hyderus. Mae cwricwlwm ein hysgol yn flaengar a bydd yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu rheolaeth ac annibyniaeth wrth ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol a'r sgiliau cyfannol; yn ogystal â sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â chynnwys cynyddol gymhleth a soffistigedig er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o bob 'Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig' fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Bydd y broses o archwilio ac ailymweld â'r datganiadau hyn yn galluogi ein dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth ddyfnach fyth dros eu continwrm dysgu ac i symud ymlaen i ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, syniadau ac egwyddorion allweddol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae asesu yn ein hysgol yn galluogi ein dysgwyr i wneud cynnydd gan ei fod yn canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr i symud ymlaen yn eu dysgu o ddydd i ddydd gan adnabod a myfyrio ar gynnydd dysgwyr dros amser. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu dull integredig, trawsddisgyblaethol o ddysgu ac yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cysylltiadau ystyrlon ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu dysgu a chyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau.

Mae ein cwricwlwm wedi'i gynllunio i ddatblygu ymdeimlad o berthyn yn ein disgyblion, nid yn unig mewn ystyr ffisegol neu ddaearyddol ond yn hanesyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol gan sicrhau eu bont yn deall beth sydd wedi llunio ac sy'n parhau i lunio'r gymuned y mae ein hysgol yn byw ynddi. Anelwn i helpu ein disgyblion i wneud synnwyr o'u hunaniaeth eu hunain, i wneud synnwyr o'u perthynas â'u cymunedau, eu hunaniaeth genedlaethol a'r byd ehangach.

Bydd yr ysgol yn monitro effaith ei chwricwlwm ar gynnydd disgyblion a'u datblygiad o'r pedwar diben yn barhaus drwy gydol y flwyddyn academiaidd ac yn cwblhau adolygiad ffurfiol yn flynyddol.